**Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD A THRAFNIDIAETH A'R PWYLLGOR DETHOL AR FATERION CYMREIG**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

# Datganiad ar y Cyd ar y Mesur Trafnidiaeth drafft (Cymru)

Heddiw, mae'r Pwyllgor Materion Cymreig a'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth yn cyhoeddi eu Hadroddiadau ar y Mesur Trafnidiaeth drafft (Cymru). Bu'r Pwyllgorau yn gweithio gyda'i gilydd ar y gwaith o graffu ar y Mesur drafft ac fe ddaw'r ddau Adroddiad i gasgliadau tebyg. Mae'r gweithio ar y cyd hwn yn cynrychioli dull arloesol a chynyddol o fynd ati i graffu ar ddeddfwriaeth ddrafft sy'n effeithio ar Gymru.

Mae'r Pwyllgorau yn croesawu'r cynigion a nodir yn y Mesur drafft a fyddai'n galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i weithredu polisi trafnidiaeth integredig ar gyfer Cymru.

Mae'r Pwyllgorau yn cydnabod y bydd gan awdurdodau lleol rôl bwysig i'w chwarae yn Strategaeth Trafnidiaeth Cymru. O ganlyniad, mae'r Pwyllgorau yn argymell fod y Mesur drafft yn:

- Rhoi dyletswydd statudol ar y Cynulliad Cenedlaethol i ymgynghori ag awdurdodau lleol wrth baratoi Strategaeth Trafnidiaeth Cymru; ac yn
- Rhoi pŵer penodol i awdurdodau lleol benodi aelodau i gyd-awdurdodau trafnidiaeth rhanbarthol yng Nghymru.

Hefyd, mae'r Pwyllgorau yn argymell sawl newid er mwyn rhoi'r canlynol i'r Cynulliad Cenedlaethol:

- Pwerau i weithredu mwy o ddylanwad dros wasanaethau rheilffordd rhyng-ddinesig yng Nghymru;
- Pwerau i benodi aelodau i Awdurdod Rheilffyrdd Strategol;
- Pwerau i sefydlu Pwyllgor Teithwyr ar Drafnidiaeth Gyhoeddus ar gyfer Cymru; a
- Phwerau ehangach dros y ddarpariaeth o wasanaethau bws yng Nghymru.

Hefyd, mae'r ddau Bwyllgor yn cefnogi:

- Adleoli swyddfa Comisiynydd Traffig Cymru i Gymru;
- Sefydlu swyddfa ar gyfer yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol yng Nghymru; a
- Datganiad eglur o'r berthynas rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a Network Rail yn y dyfodol.

*Mae copïau o Adroddiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar gael gan Paul Davies, Gwasanaeth y Pwyllgorau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA. Ffôn: 029 2089 8429. Mae'r adroddiad ar gael yn electronig ar wefan y Pwyllgor yn:* http://www.cymru.gov.uk/keypubassemecodevtran/index-w.htm

*Mae copïau o Adroddiad y Pwyllgor ar Faterion Cymreig ar gael gan the Vote Office, Tŷ'r Cyffredin, the Parliamentary Bookshop, Parliament Street ac yn Llyfrfa Oriel, Caerdydd (ffôn: 02920 395548 neu 0345 585463) neu ewch i wefan y Pwyllgor yn =* http://www.parliament.uk/parliamentary_committees/welsh_affairs_committee.cfm

**Aelodau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth:** Chris Gwyther AC (Caderydd), Alun Cairns AC, Chris Chapman AC, Andrew Davies AC, Janet Davies AC, Lisa Francis AC, Brian Gibbons AC, Elin Jones AC, Lynne Neagle AC, Jenny Randerson AC.

**Aelodau'r Pwyllgor Materion Cymreig:** Mr Martyn Jones AS (Cadeirydd), Mr Martin Caton AS, Mr Huw Edwards AS, Dr Hywel Francis AS, Ms Julie Morgan AS, Mr Albert Owen AS, Hywel Williams AS, Mr Mark Prisk AS, Mr Nigel Evans AS, Mrs Betty Williams AS a Mr Roger Williams AS.